Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales

# Buddosoddi mewn dyfodol mwy disglair i Ganolbarth Cymru












# Buddsoddiad rhanbarthol yn helpu Canolbarth Cymru adeiladu dyfodol mwy disglair

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Amaethyddiaeth, Bwyd a Diod | 4 |
| Ymchwil Gymhwysol ac Arloesi | 6 |
| Twristiaeth | 8 |
| Cynorthwyo Menter | 10 |
| Digidol | 12 |
| Trafnidiaeth | 13 |
| Sgiliau a Chyflogaeth | 14 |




Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales

# Cyflwyniad



**Rosemarie Harris**
Cyngor Sir Powys



**Ellen ap Gwynn**
Cyngor Sir Ceredigion

**Mae Cynghorwyr Rosemarie Harris ac Ellen ap Gwynn yn bwrw golwg yn ôl dros gyflawniadau'r 6 blynedd diwethaf, a'r defnydd a wnaethpwyd o gyllid UE er mwyn cryfhau economi Canolbarth Cymru.**

Fel Arweinwyr ein Cynghorau, ac wrth Gadeirio Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, rydym wedi bod yn gweithio i ysgogi twf economaidd rhanbarthol mewn partneriaeth ers cyfnod hir. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi cynnig yr arweinyddiaeth a'r llais er mwyn canolbwyntio ar anghenion a chyfleoedd Canolbarth Cymru.

Dros y blynyddoedd, rydym wedi cael dylanwad ar a chyflawni nifer o'n prif flaenoriaethau economaidd trwy siapio a dylanwadu ar ymyriadau cenedlaethol, yn ogystal â chynnig gweithgarwch cydlynu rhanbarthol strategol a darparu buddsoddiadau economaidd, gan gynnwys cronfeydd Ewropeaidd ac adfywio.

Yn fwy diweddar, rydym wedi gosod y sylfeini er mwyn hwyluso a chyflymu twf economaidd hefyd trwy gyfrwng un weledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y rhanbarth – lle y bydd Bargen Twf yn cyflawni rôl allweddol fel rhan o gymysgedd cyllido ehangach. Mae'r gwaith yn parhau yn gyflym nawr i ffurfio cytundeb Penawdau'r Telerau a chyflawni portffolio trawsnewidiol o fuddsoddiadau ar gyfer preswylwyr y rhanbarth – fodd bynnag, bydd gofyn cael cydnabyddiaeth a gwaith mewn partneriaeth ar draws pob haen Llywodraeth a'r rhanbarth er mwyn sicrhau'r cyllid a'r capasiti sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein huchelgais ar y cyd fel rhanbarth.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae pandemig y Coronafeirws wedi effeithio ar ein bywydau dyddiol ac ar ein busnesau, mewn ffordd nad ydym wedi gweld ei thebyg o'r blaen yn ddiweddar. Wrth i ni barhau i weld effeithiau cymdeithasol ac economaidd y pandemig, mae'n bleser felly gallu myfyrio rhywfaint am y llwyddiannau cadarnhaol a welwyd yng Nghanolbarth Cymru o ganlyniad i gyllid Ewropeaidd, gan gydnabod cymorth y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol wrth gynorthwyo'r buddsoddiadau hyn.

Mae Canolbarth Cymru eisoes yn gartref i fusnesau a diwydiannau allweddol arwyddocaol – ac mae'n amlwg o'r cymorth a ddarparwyd dros y blynyddoedd diwethaf bod cyfoeth o gyfleoedd yn y rhanbarth. Mae'n galonogol gweld yr ymdrechion a wnaethpwyd i fuddsoddi mewn creu cyfleoedd cyflogaeth newydd, i ddatblygu a chynorthwyo ein busnesau, i gynorthwyo ein gweithlu ac i fuddsoddi mewn seilwaith digidol.

Heb os, mae'n gyfnod ansicr oherwydd Covid ac o ran sefyllfa cyllid cyhoeddus yn y dyfodol i gynorthwyo ein lles economaidd ar gyfer y dyfodol. Fel Arweinwyr, rydym wedi nodi'n glir ein bwriad a'r angen i ystyried Canolbarth Cymru trwy lens cyfle a darparu, nid yn unig er mwyn adfer – ond hefyd, er mwyn manteisio ar yr cyfleoedd sydd gennym yma yn y rhanbarth i gyfrannu at dwf a ffyniant yn y dyfodol. Ond rydym yn nodi'n glir hefyd y bydd hyn yn gofyn am waith sylweddol i gydlynu a chydweithredu polisi cyhoeddus ar bob lefel, law yn llaw gyda chyllid a chymorth digonol i fodloni ein hanghenion a'n cyfleoedd yng Nghanolbarth Cymru.

Mawr obeithiwn y byddwch chi, fel ni, yn neilltuo'r amser i ddathlu a myfyrio am y llwyddiannau a welwyd ar draws Canolbarth Cymru hyd yn hyn, ac y byddwch yn mwynhau darllen yr astudiaethau achos gymaint ag yr ydym ni wedi mwynhau eu darllen.

**Mae Canolbarth Cymru yn gartref i sector amaethyddol cryf a ffyniannus sy'n cynhyrchu cynnyrch o safon cydnabyddedig ar lefel genedlaethol a rhyngwladol. Mae'r rhanbarth yn cynnwys dros 900 o fusnesau sy'n gysylltiedig â bwyd, sy'n cyflogi dros 10,000 o bobl; ac mae ganddi arbenigedd cadarn ac mae'n fan lle y cynigir cymorth cadarn trwy fodolaeth sefydliadau strategol sy'n cynorthwyo'r sector a'r potensial i arddangos mewn digwyddiadau a gydnabyddir ar lefel ryngwladol megis Sioe Frenhinol Cymru. Law yn llaw gyda chryfderau diwydiannol ac ym maes arloesi, mae hyn yn cynnig y cyfle i dyfu'r sail economaidd yn sylweddol, gan arwain at ddatblygiadau bwyd newydd uchel eu gwerth.**

# Canolfan Fwyd Cymru - Prosiect HELIX

## Blas llwyddiant

Mae Canolbarth Cymru yn gartref i Ganolfan Bwyd Cymru, canolfan technoleg bwyd benodedig sy'n cynnig cyngor, gwasanaethau technegol a hyfforddiant i fusnesau newydd, busnesau bach a chanolig a chynhyrchwyr bwyd sy'n bodoli eisoes, ac fe'i lleolir ym mhentref Horeb, ger Llandysul. Mae'r ganolfan yn cynnwys adeilad Ymchwil a Datblygu penodedig sy'n cynnwys cyfleusterau heb eu hail, lle y mae Technolegwyr Bwyd arbenigol yn gweithio, sy'n barod i gynhyrchwyr bwyd ddatblygu cynhyrchion newydd a chynhyrchion sy'n bodoli eisoes.

Mae Canolfan Bwyd Cymru yn bartner allweddol ym Mhrosiect Helix – menter strategol £21 miliwn a ariannir trwy RDP, a gynhelir ar draws Cymru gyfan, ac a ddarparir gan Arloesi Bwyd Cymru.

Mae prosiect HELIX yn ceisio datblygu a darparu gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar arloesi, strategaeth bwyd ac effeithlonrwydd a fydd yn cynyddu cynhyrchiant ac yn lleihau'r gwastraff yn y gadwyn fwyd. Caiff cwmnïau bwyd a diod yng Nghymru eu cynorthwyo i ddatblygu ac ail-greu cynhyrchion arloesol o gam y cysyniad a'r camau dylunio, datblygu a chynhyrchu, i fasged siopa y defnyddiwr.

Mae Technolegwyr Bwyd o'r dair Canolfan Fwyd yng Nghymru yn gweithio gyda chwmnïau yng Nghymru i ddadansoddi pob cam o'r broses gynhyrchu mewn ffordd fforensig, gan nodi ffyrdd o gyflwyno arbedion effeithlonrwydd ar draws trefniadau rheoli prosesau, cynlluniau safle a datblygiad systemau.

Mae dull strategol Prosiect HELIX yn galluogi cynhyrchwyr bwyd yng Nghymru i gael budd gan arfer gorau a gwybodaeth o'r diwydiant ar draws y byd. Canfu gwerthusiad a gynhaliwyd o'r prosiect yn ystod yr haf 2019 bod y prosiect eisoes wedi cael effaith economaidd o £110 miliwn ers iddo gychwyn yn 2016. Yn ogystal, roedd wedi helpu i greu 366 o gynhyrchion newydd, bron i 300 o swyddi newydd ac roedd wedi helpu i ddiogelu 1,300 o swyddi pellach.



# Astudiaeth achos

## Ridiculously Rich by Alana

Un o'r cwmnïau i fanteisio ar gymorth HELIX yw cwmni adnabyddus Ridiculously Rich by Alana. Mae Alana yn adnabyddus am ennill deuddegfed cyfres The Apprentice ar BBC One yn 2016, gan sicrhau buddsoddiad gan Arglwydd Sugar ar gyfer ei busnes sy'n cynhyrchu cacennau moethus.

Mae wastad wedi bod yn bwysig i Alana bod y cynhyrchion yn cael eu cynhyrchu yng Nghymru, gan ddefnyddio'r cynhwysion gorau, ac ym mis Hydref 2019, symudodd Ridiculously Rich i'w bopty pwrpasol cyntaf yn nhref enedigol Alana, sef Aberystwyth. Bu'r tîm technegol yng Nghanolfan Bwyd Cymru yn cynorthwyo Alana wrth iddi symud i'w safle newydd, trwy gynnig cymorth gyda chynllun y ffatri, sicrhau offer a Chynlluniau HACCP er mwyn sicrhau y byddai'r safle newydd yn bodloni galwadau y busnes a oedd yn tyfu.

Roedd Canolfan Bwyd Cymru wedi helpu busnes Alana i sicrhau safonau SALSA (Cymeradwyaeth Cyflenwr Diogel a Lleol) mewn chwe wythnos yn unig – cynhaliodd y Technolegwyr Bwyd ddadansoddiad o'r bylchau yn y prosesau a'r gweithdrefnau er mwyn nodi'r meysydd yr oedd angen gwneud gwaith arnynt i sicrhau Achrediad SALSA, gan gynnig arweiniad er mwyn cyflawni'r safonau hynny.

Ers i'r popty agor yn swyddogol ym mis Hydref 2019, mae Ridiculously Rich by Alana wedi ehangu dewis ei gynhyrchion 30 %, gan agor siop ar y safle er mwyn gwerthu cynhyrchion pwrpasol. Mae poblogrwydd y popty wedi arwain at giwiau mawr a welir y tu allan i'r drws yn aml, ac yn ddiweddar, mae Alana wedi agor y bar pwdinau cyntaf yng Nghanolbarth Cymru ar lan y môr yn y dref y mae mor hoff ohoni, sef Aberystwyth.



Ers i'r popty agor yn swyddogol ym mis Hydref 2019 mae Alana wedi ehangu dewis ei gynhyrchion

**30 %**

gan agor siop ar y safle er mwyn gwerthu cynhyrchion pwrpasol.

Mae prosiect HELIX eisoes wedi cael effaith economaidd o

**£100 miliwn**

ers iddo gychwyn yn 2016.

Mae prosiect HELIX wedi creu

**366**

o gynhyrchion newydd, a bron i

**300**

o swyddi newydd.

**Mae Canolbarth Cymru yn gartref i asedau ymchwil a datblygu a diwydiannau cydnabyddedig ac adnabyddus ar lefel fyd-eang, sy'n cynnig cyfleoedd i roi hwb aruthrol i dwf cynhyrchiant rhanbarthol.**

**Mae byd busnes ar draws Canolbarth Cymru eisoes yn cael budd o'r ffaith ei fod yn gallu manteisio ar wasanaeth Arloesedd Smart LIC, sy'n manteisio ar gyllid ERDF sy'n werth dros £17m. Mae SMART Cymru yn cynnig cymorth ar draws Cymru gyfan i fusnesau sydd wedi cyrraedd gwahanol gamau o'r broses RD&I, ac mae'n gweithredu law yn llaw â phrosiectau eraill megis Arbenigedd SMART, sy'n gweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch i ddatblygu rhagoriaeth ym maes ymchwil a hyrwyddo trosglwyddo gwybodaeth.**

# AberInnovation

## Amgylchedd ar gyfer cydweithio rhwng byd busnes a'r byd academaidd

Lleolir AberInnovation ar safle Gogerddan Prifysgol Aberystwyth, a bydd yn cynnwys cyfleusterau ac arbenigedd a fydd yn arweinwyr ar lefel byd yn y sectorau bio-brosesu, technoleg amaeth a bwyd a diod, er mwyn cynorthwyo twf busnesau trwy ddadrisgio gweithgareddau Ymchwil a Datblygu, hwyluso datblygiad cynhyrchion a phrosesau newydd, a chyflymu llwybrau i'r farchnad.

Bydd y buddsoddiad o £40.5m trwy ERDF yn datblygu'r gymuned wyddonol sefydledig a leolir yn y rhanbarth yn y barod; a chan weithio mewn partneriaeth gydag endidau cyhoeddus a phreifat, bydd yn ceisio rhoi sylw i rai o sialensiau mawr pennaf yr unfed ganrif ar hugain, gan gynnwys lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, diogelwch bwyd a dŵr ac ynni adnewyddadwy.

Mae'r campws yn brosiect strategol ar gyfer y rhanbarth, a bydd yn cynnig budd uniongyrchol i'r gymuned leol trwy gyfrwng economïau a gwasanaethau cysylltiedig, a thrwy greu swyddi a dewisiadau gyrfa newydd o werth uchel o fewn plethora o ddiwydiannau. Bydd y cyfleuster ymchwil newydd yn cynnig galluoedd a chyfleusterau aml-ddisgyblaethol o'r radd flaenaf, gan ganiatáu i gwmnïau a rhanddeiliaid prifysgol i gynyddu eu gallu i sicrhau grantiau ymchwil yn sylweddol, gan sicrhau gwerth miliynau o bunnoedd mewn incwm ychwanegol i'r ardal.

Cwblhawyd y gwaith adeiladu ar y campws ym mis Awst 2020, ac mae nifer o fentrau eisoes wedi cael lle yno, a cheir rhwydwaith o aelodau a thenantiaid sy'n tyfu, a gefnogir gan AberInnovation.

Bydd y datblygiad hwn yn gyrru potensial ein cryfderau mewn arbenigedd ac asedau ymchwil i sicrhau twf, er mwyn helpu i gynnal newid yn yr economi ranbarthol i roi hwb i gynhyrchiant a thwf o ran swyddi ar draws Canolbarth Cymru.

**Bydd y buddsoddiad o**

**£40.5m**

**yn datblygu'r gymuned wyddonol sefydledig a leolir yn y rhanbarth yn y barod.**



Gan ddarparu cyfleusterau labordy unigryw ar lefel uchel, bydd y prosiect gwerth

**£4.2m**

yn agor yn hwyr yn 2020.




# VETHUB1

## Cynorthwyo datblygiadau ym maes Milfeddygaeth

Mae VetHub1 yn brosiect a gefnogir gan ERDF a fydd yn ymgysylltu gyda busnesau bach a chanolig, sefydliadau addysg uwch a chwmnïau rhyngwladol wrth ddatblygu gweithgareddau ymchwil a masnachol a fydd yn targedu clefydau o bwysigrwydd milheintiol ac o ran iechyd anifeiliaid i Ganolbarth Cymru a'r byd.

Gan ddarparu cyfleusterau labordy unigryw ar lefel uchel, bydd y prosiect sy'n werth £4.2m yn agor yn hwyr yn 2020, a bydd yn gweithio gyda'r llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol eraill megis Canolfan Milfeddygaeth Cymru i gyflenwi gwasanaethau cymorth milfeddygol ar draws Cymru, a gwella'r gallu cenedlaethol

Trwy gynnig gwasanaethau milfeddygol yng Nghymru a gyflawnir mewn rhan arall o'r DU fel arfer, a thrwy gynorthwyo i ddarganfod pathogenau lle na all y cyfleusterau sy'n bodoli eisoes fodloni'r galw, bydd VetHub1 yn cyfrannu at rwydwaith cydnerthedd cenedlaethol a fydd yn cynorthwyo ffermwyr a phractisiau milfeddygol.

Mae VetHub1 yn rhan hanfodol o'r clwstwr Milfeddygaeth ac Iechyd Anifeiliaid yng Nghanolbarth Cymru, gan ddatblygu gweithgarwch strategol megis Canolfan Rhagoriaeth TB Buchol a ariannir gan SER Cymru ac unig Ysgol Milfeddygaeth Cymru, a leolir ym Mhrifysgol Aberystwyth hefyd. Mae Canolbarth Cymru yn fan delfrydol fel arweinydd ym maes darparu gwasanaethau i'r sector amaeth a chan hyfforddi cenhedlaeth nesaf y milfeddygon.



Mae Canolbarth Cymru yn rhanbarth amlwg sydd â threftadaeth a diwylliant cyfoethog, ynghyd ag asedau naturiol rhagorol sy'n cynnig sylfaen ar gyfer sector twristiaeth o bwysigrwydd sylweddol i'r economi ranbarthol; ac mae'r diwydiant yn cyflogi 10,500 yn y rhanbarth ac roedd yn werth tua £6.3 biliwn ar lefel genedlaethol yn 2018, yn ôl amcangyfrifon. Mae Covid-19 yn cael effaith sylweddol ar y sector hwn, fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn un pwysig, ac mae potensial ein hasedau i gynorthwyo twf cynaliadwy yn y dyfodol yn parhau i fod yr un fath.

# Mynyddoedd Cambrian

## Manteisio i'r eithaf ar ein hasedau naturiol

Trwy gyfrwng gwaith helaeth a wneir mewn partneriaeth a dwy flynedd o weithgarwch ymgysylltu gwerthfawr gyda chymunedau, cynhyrchwyr lleol a thwristiaeth, mae Dyfodol Cambrian Futures wedi cynorthwyo datblygiad cymunedau gwledig cynaliadwy trwy ddarparu cyfleoedd twristiaeth newydd a chynyddu'r gweithgarwch i hyrwyddo un o'r rhannau mwyaf prydferth yng Nghanolbarth Cymru.

Bydd y rhai sy'n hoffi syllu ar y sêr wrth eu bodd gyda'r Canllaw Darganfod Awyr Dywyll cyntaf ar gyfer ardal Cwm Elan a Mynyddoedd Cambria, gan ddatblygu statws Cwm Elan fel Parc Awyr Dywyll Rhyngwladol. Mae'r prosiect wedi creu 'llwybr astro-dwristiaeth' hefyd, gan gysylltu naw safle sy'n arddangos awyr ysblennydd y nos ym Mynyddoedd Cambria. Bydd ymwelwyr yn gallu manteisio ar y canllaw poced a'r map cyntaf erioed ar gyfer Mynyddoedd Cambria hefyd.

Mae'r prosiect eisoes wedi arwain at gynnydd mewn twristiaeth a phobl yn aros am gyfnod hwy yn yr ardal, gan ddwyn budd economaidd i ddarparwyr llety lleol, caffis, tafarndai, bwytai, siopau lleol a darparwyr gweithgareddau.

Mae prosiect Dyfodol Cambrian Futures yn brosiect a ariannir gan RDP ac a ddarparir gan Fenter Mynyddoedd Cambria, ac fe'i ariannir yn rhannol gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Gâr.

Mae'r diwydiant yn cyflogi

**10,500**

yn y rhanbarth ac roedd yn werth tua

**£6.3b**

ar lefel genedlaethol yn 2018.








CHERISH
Newid Hinsawdd a Threftadaeth yr Arfordir
Climate Change and Coastal Heritage
Athrú Aeráide agus Oidhreacht Chultúrtha

**Bydd y prosiect brosiect cyffrous yma sydd wedi'i ariannu gan arian Ewropeaidd yn cael gwerth**

**£5.1m**

**trwy Raglen Iwerddon-Cymru 2014-2020.**



# CHERISH

## Treftadaeth ddiwylliannol trawsffiniol

Mae CHERISH (Hinsawdd, Treftadaeth ac Amgylcheddau Riffau, Ynysoedd a Phentiroedd) yn brosiect 6 blynedd cyffrous rhwng Cymru ac Iwerddon, ac wedi'i ariannu gan arian Ewropeaidd, rhwng Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Rhaglen Darganfod: Canolfan Archeoleg ac Arloesedd Iwerddon, Prifysgol Aberystwyth: Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear ac Arolwg Daearegol, Iwerddon. Bydd y prosiect yn cael gwerth €5.1 miliwn trwy Raglen Iwerddon-Cymru 2014-2020.

Mae CHERISH yn brosiect gwirioneddol trawsddigyblaethol. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o effeithiau y newid yn yr hinsawdd, stormusrwydd a digwyddiadau tywydd eithafol yn y gorffennol, yn y presennol ac yn y dyfodol agos ar dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog arfordir a moroedd rhanbarthol Cymru ac Iwerddon. Mae'r prosiect yn defnyddio technegau arloesol i astudio rhai o'r lleoliadau arfordirol mwyaf eiconig yng Nghymru ac Iwerddon.

**Darparwyd miliynau ar filiynau o bunnoedd ar ffurf cymorth yng Nghanolbarth Cymru er mwyn ysgogi a chynorthwyo twf yn 13,000 o fusnesau y rhanbarth. Mae Busnes Cymru, prif raglen cymorth busnes Llywodraeth Cymru, wedi manteisio ar werth £51 miliwn o gyllid gan UE hyd yn hyn, i ddarparu pecyn gwybodaeth a chymorth cynhwysfawr ac wedi'i deilwra i fusnesau bach a chanolig er mwyn galluogi gweithgarwch creu swyddi a thyfu busnes a chyfoeth yng Nghymru. Yn ogystal, mae Busnes Cymru yn darparu gweithgarwch hyrwyddo a chynorthwyo entrepreneuriaeth i entrepreneuriaid yng Nghymru trwy Syniadau Mawr Cymru, er mwyn datblygu amgylchedd entrepreneuraidd a stoc cynaliadwy o fusnesau ifanc.**

**Hyd yn hyn, dan Raglen gyfredol 2014-202 ERDF, mae 1,310 o fusnesau yng Nghanolbarth Cymru wedi cael cymorth anariannol, a chynorthwywyd dros 350 o fentrau newydd. Gwelwyd cynnydd mewn cyflogaeth hefyd, sef 1,704 o swyddi ychwanegol mewn mentrau a gynorthwywyd.**

Mae Busnes Cymru wedi manteisio ar werth

£51m

o gyllid gan UE hyd yn hyn, er mwyn galluogi gweithgarwch creu swyddi a thyfu busnes a chyfoeth yng Nghymru.

# Banc Datblygu Cymru

# Camlas Vets

## Cymorth ariannol yn galluogi practis milfeddygol i dyfu

Mae Camlas Farm Vets yn bractis milfeddygol annibynnol ar gyfer anifeiliaid fferm. Gan weithio gyda ffermydd masnachol a thyddynwyr, maent yn darparu cymorth a gwasanaethau o ansawdd uchel i gleientiaid yn ardal Powys a Swydd Amwythig. Maent yn teimlo'n angerddol ynghylch trin anifeiliaid ac maent yn gweithio gyda ffermwyr i gael y gorau o'u mentrau ffermio a da byw. Fel practis anifeiliaid fferm mewn cymuned glos yng nghanolbarth Cymru, nod y practis yw sicrhau bod eu cwsmeriaid wastad yn hollol fodlon gyda'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Roedd y practis wedi bod yn gweithredu o'i safle gwreiddiol am chwe blynedd. Roedd yn weithredol, ond yn fach, heb ffordd go iawn o gynyddu capasiti. Diolch i Fenthyciad Cronfa Fusnes Cymru o £80,000 trwy gyfrwng Banc Datblygu Cymru, llwyddodd Camlas Farm Vets i symud i safle mwy o faint, a fydd yn eu galluogi i dyfu eu busnes a chynnig ystod ehangach o wasanaethau. Mae eu canolfan newydd yn caniatáu i ffermwyr lleol ddod ag anifeiliaid i'w safle yn ôl yr angen, a defnyddiwyd rhywfaint o'r cyllid hefyd i greu ystafell law-drin newydd, sy'n addas ar gyfer anifeiliaid mwy o faint fel mamogiaid, gwartheg a cheffylau.

Mae'r benthyciad wedi sicrhau naw swydd yn y practis, ac fe allai arwain at greu swyddi pellach o ganlyniad i'r capasiti uwch.

Mae'r buddsoddiad a wneir mewn busnesau bach a chanolig wedi gwella'n sylweddol lle y gwelir cyllid a chymorth busnes yn cydredeg. Er mwyn gwireddu hyn, mae Banc Datblygu Cymru yn gweithio gyda Busnes Cymru, gan ei gwneud yn symlach ac yn haws i fusnesau fanteisio ar gymorth law yn llaw gyda chyllid. Mae cynllun cyfeirio rhwng y Banc Datblygu a Busnes Cymru yn helpu busnesau yng Nghymru i gael budd gan ddull mwy cyflawn tuag at gymorth busnes.





## Busnes Cymdeithasol Cymru Aber Food Surplus

### Lleihau gwastraff a chreu swyddi

Sefydlwyd Aber Food Surplus yn 2017, pan gyfarfu tri unigolyn o Gymdeithas Cynaladwyedd Prifysgol Aberystwyth a dechrau casglu gwastraff bwyd o archfarchnad Morrison's. Erbyn 2019, roeddent wedi sicrhau gwerth £99,000 ar ffurf arian gan y Loteri, gan ddarparu 3,000 o brydau "talu fel yr ydych yn teimlo" ac ailddosbarthu 17,000 tunnell o fwyd.

Gan ehangu eu casgliadau er mwyn cynnwys M&S, Lidl a Tesco, maent yn arbed 300 cilogram o fwyd rhag cael ei wastraffu bob wythnos ar hyn o bryd, gan ddarparu cyfleusterau a gwasanaethau er mwyn annog lleihad ac ail-ddosbarthiad bwyd dros ben sy'n iawn i'w fwyta gan y prif archfarchnadoedd yn Aberystwyth.

Eu nod yw dwyn pobl ynghyd, gan ddefnyddio bwyd i waredu rhwystrau, cynnig cyfleoedd, a chynorthwyo'r gymuned mewn ffordd gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol i weithio tuag at gymuned sy'n fwy cydnerth, rhagweithiol ac iach.

Mae gweithrediad Busnes Cymdeithasol Cymru, a ariannir gan ERDF ac a arweinir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, wedi bod yn gweithio gyda'r tîm er 2017 ac mae wedi darparu cymorth gyda strwythurau cyfreithiol a chofrestru cwmni, cynllunio busnes a rhagolygon ariannol, a sicrhau cyllid a cheisiadau am grant.

## Busnes Cymdeithasol Cymru Open Newtown

### Asedau cymunedol yn y Drenewydd

Ffurfiwyd Going Green for a Living Community Land Trust Ltd yn 2018 pan gododd y cyfle i'r gymuned ymgymryd â'r stiwardiaeth dros barciau, mannau agored ac ar lan yr afon yn y dref. Aeth prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru ati i gynorthwyo Open Newtown i adolygu'r gwahanol fodelau busnes a oedd ar gael er mwyn creu'r mentrau cymdeithasol a datblygu Erthyglau Cymdeithasu pwrpasol a ddefnyddiwyd er mwyn creu'r cwmni newydd, gan sefydlu Open Newtown fel cwmni nid-er-elw cyfyngedig trwy warant. Roedd y cymorth yn cynnwys cynllunio busnes, sicrhau buddsoddiad ac arfer gorau ar gyfer trosglwyddiadau asedau hefyd.

Llofnododd y prosiect les 99 mlynedd ar gyfer 130 hectar o le gwyrdd yng nghanol y dref fel rhan o drosglwyddiad asedau tir rhwng Cyngor Sir Powys a Chyngor Tref Y Drenewydd a Llanllwchhaearn. Daethant yn gyfrifol am 10 hectar o dir gan Lywodraeth Cymru hefyd.

Gan fasnachu fel Open Newtown yn 2018, llwyddont i sicrhau grant o £1.1 miliwn gan Gronfa Gymunedol Cymru y Loteri Genedlaethol fel rhan o'u cronfa Trosglwyddo Asedau Cymunedol er mwyn datblygu'r asedau tir a sefydlu'r prosiectau a'r partneriaethau a fyddai'n caniatáu i fannau gwyrdd Y Drenewydd gael eu rheoli am byth ar gyfer y gymuned, gan greu asedau naturiol a datblygu buddion ar gyfer pobl y dref ac economi y dref.

Yn Y Drenewydd, maent yn mynd trwy'r broses o greu The Riverside Venue gyda chymorth cyllid Adfywio LlC, a fydd yn gweithredu fel porth i fannau gwyrdd Y Drenewydd ac fel man canolog rhanbarthol er mwyn datblygu twristiaeth gynaliadwy, yn ogystal â chynnig croeso cynnes i bobl leol ac ymwelwyr sy'n cyrraedd ar fws, ar droed, ar feic ac mewn car. A gyda chymorth ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru a chymorth y clwb canŵio lleol, maent wedi bod yn datgloi potensial Afon Hafren yn Y Drenewydd trwy osod pedwar pwynt mynediad sy'n cynnig mynediad diogel er mwyn annog chwaraeon padlo yn Y Drenewydd.

AGOR DRENEWYDD OPEN NEWTOWN

**Mae seilwaith digidol a manteisio ar dechnoleg ddigidol yn hanfodol er mwyn creu Canolbarth Cymru sy'n gysylltiedig ac sy'n alluog yn ddigidol. Gall busnesau ar draws y rhanbarth weithio mewn ffordd gallach, cyflymach a gwell, ar ôl buddsoddiad cyhoeddus mawr mewn darparu band eang cyflym iawn.**

**Mae Rhaglenni Band Eang Cyflym Iawn a Band Eang Gwibgyswllt Llywodraeth Cymru yn allweddol er mwyn sicrhau bod Canolbarth Cymru yn gysylltiedig, ac mae'r rhain wedi cael cyfanswm cyfunol o £29.6 miliwn dan raglen gyfredol ESIF. Mae'r prosiectau hyn yn datblygu gweithgarwch a ariannwyd yn ystod y rhaglen flaenorol, gan geisio cysylltu 40,000 o safleoedd 'anos i'w cyrraedd' i seilwaith band eang sy'n addas ar gyfer y dyfodol.**

Mae Rhaglenni Band Eang Cyflym Iawn a Band Eang Gwibgyswllt wedi derbyn cyfanswm cyfunol o

**£29.6m**

dan raglen gyfredol ESIF.

# Superfast Business Wales

## Elusen yn lleihau sialensiau arwahanrwydd gwledig

Gan wynebu sialensiau lluosog, sylweddolodd elusen yng Ngorllewin Cymru sy'n gweithio gyda phlant o 10 oed i oedolion ifanc 30 oed, bod angen iddynt feddwl mewn ffordd wahanol ynghylch mynd i'r afael ag arwahanrwydd gwledig mewn ffordd uniongyrchol. Mae Area 43, a leolir yn Aberteifi, yn rhedeg canolfan alw heibio a gwasanaethau cwnsela ac mae'n cael cyswllt gyda 1,800 o bobl ifanc agored i niwed y flwyddyn, y caiff nifer ohonynt eu cyfeirio o wasanaethau eraill megis addysg, gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, meddygon teulu, banciau bwyd a chyfiawnder ieuenctid. Ond o ystyried natur ddaearyddol eang a gwledig Ceredigion, roedd hi'n anodd estyn allan weithiau.

Ar y dechrau, bu'r elusen yn ystyried sut y gallai gysylltu gyda phobl gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a mynychodd Lisa Head, Rheolwr Gwasanaethau, weithdy gyda Chyflymu Cymru i Fusnesau. Ond yr amser un-i-un a dreuliwyd gyda Paul Gadd, ei chynghorydd busnes yn Cyflymu Cymru i Fusnesau, oedd wedi taro deuddeg gyda hi. "Newidiodd fy ffordd o feddwl yn llwyr ac roeddwn yn synnu ar yr hyn y gallem ei wneud gyda thechnoleg a pha mor syml oedd rhai o'r datrysiadau," dywedodd Lisa.

Yn gyntaf, aeth yr elusen i'r afael â'i gwefan, a oedd yn 20 mlwydd oed, gan sicrhau ei bod yn fwy hygyrch ac yn edrych yn fwy proffesiynol. "Fel elusen, rydym yn dibynnu ar gyfleoedd tendro a chyllid ac mae rhoi'r argraff gywir yn hanfodol er mwyn i ni allu parhau i gynorthwyo ein cymuned." Roedd y wefan newydd wedi eu helpu i sicrhau cyllid er mwyn peilota gwasanaeth digidol yng Ngheredigion. "Mae gwasanaeth cwnsela Yma i Chi Ar-lein yn cynnig mynediad syth i wasanaeth pan fydd ei angen ar rywun, ac mae'n gallu gwneud newid mor fawr i'w hiechyd a'u lles meddyliol," dywedodd Lisa. Cefnogir Gwasanaeth Cwnsela Ar-lein 'Yma i Chi' gan Cynnal y Cardi dan gynllun LEADER yng Ngheredigion, ac mae wedi sicrhau cyllid trwy Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariannir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.



**Mae rhwydweithiau trafnidiaeth dibynadwy, cydnerth, cynaliadwy a chysylltiedig yn hynod o bwysig i gymunedau a thwf economaidd – yn enwedig mewn rhanbarth wledig fel Canolbarth Cymru. Mae seilwaith o ansawdd da yn hanfodol wrth gysylltu pobl gyda chyfleoedd, a chwmnïau gyda marchnadoedd a chyflenwad llafur.**

Bu cais rhanbarthol yn llwyddiannus wrth ddatblygu prosiect

**£160,000**

i osod 5 sgrin CGi ar hyd coridor T2 TrawsCymru.

# TAIS

## Gwella trafnidiaeth i dwristiaid

Dan gynllun cyfredol ESIF, mae Canolbarth Cymru wedi cael budd gan y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Amwynderau Twristiaeth (TAIS), a gaiff ei redeg gan Croeso Cymru.

Mae TAIS yn gronfa fuddsoddi sy'n targedu prosiectau amwynder yn y sector twristiaeth, a fydd yn datblygu cyfleusterau twristiaeth cynaliadwy o ansawdd, gan ychwanegu gwerth i'r profiad i ymwelwyr. Bu cais rhanbarthol yn llwyddiannus wrth ddatblygu prosiect £160,000 i osod 5 sgrin CGi ar hyd coridor T2 TrawsCymru, gan gynnwys trefi Machynlleth ac Aberystwyth sy'n boblogaidd ymhlith twristiaid.

Yn ogystal â darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am amserlenni bysiau, bydd y sgriniau yn caniatáu i'r cyhoedd droi at dudalennau twristiaeth Awdurdodau Lleol ar y we, gan hyrwyddo Llwybr Arfordir Cymru Llywodraeth Cymru.



**Mae sicrhau gweithlu medrus iawn ar gyfer y dyfodol yn flaenoriaeth ar gyfer economi Canolbarth Cymru.**

**Hyd yn hyn, mae'r Rhaglen ESF 2014-2020 gyfredol wedi cynorthwyo dros 11,000 o gyfranogwyr yng Nghanolbarth Cymru. Mae bron i 5000 o'r rhain wedi sicrhau cymhwyster ac mae 780 wedi cychwyn mewn cyflogaeth.**

**Yn ychwanegol i gynlluniau ar draws Cymru megis prif gynllun Prentisiaeth Llywodraeth Cymru – sydd wedi manteisio ar dros £200 miliwn o gyllid gan UE dan y rhaglen gyfredol – gall gweithlu Canolbarth Cymru fanteisio ar amrywiaeth o brosiectau sgiliau a chyflogadwyedd lleol a rhanbarthol wedi'u teilwra i anghenion gweithlu Canolbarth Cymru.**

Mae Bioarloesedd Cymru yn weithrediad

£6.4m

a gynhelir ar draws Cymru, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r prinder mewn sgiliau technegol.

# Bioarloesedd Cymru

## Uwchsgilio ar gyfer y dyfodol

Mae Bioarloesedd Cymru yn weithrediad £6.4m a gynhelir ar draws Cymru, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r prinder mewn sgiliau technegol ac ar lefel uchel mewn busnesau bio yng Nghymru trwy ddarparu hyfforddiant ôl-raddedig ar-lein ar gyfer diwydiannau Bwyd-Amaeth a Biotechnoleg yng Nghymru, gan ddatblygu unigolion medrus sy'n gallu cyflawni gwaith ymchwil ac ysgogi arloesedd ym musnesau Cymru.

Mae natur yr hyfforddiant yn golygu ei fod yn hygyrch o unrhyw le, gan oresgyn rhwystrau canolfannau poblogaeth gwahanol a chysylltiadau trafnidiaeth afreolaidd. Yn ogystal ag uwchsgilio cwmnïau a chyflogeion yng Nghymru, mae'r gweithgarwch yn cynorthwyo cynhyrchiant a phroffidioldeb amaethyddiaeth yng Nghymru – diwydiant allweddol i economi Canolbarth Cymru.

Mae Bioarloesedd Cymru yn bartneriaeth rhwng Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Coleg Peirianneg ym Mhrifysgol Abertawe.



Mae PRIME Cymru wedi sicrhau gwerth

£320,000

ar ffurf cyllid ESF er mwyn cynnig cymorth i unigolion economaidd anweithgar 54 oed a throsodd yn y sir, i'w helpu ar eu llwybr yn ôl i gyflogaeth.

Roedd hyn yn cyfateb gydag

86

o bobl a aeth ymlaen i sicrhau cyflogaeth ar ôl gadael y prosiect, a

57

o bobl yr oeddent mewn cyflogaeth o hyd chwe mis ar ôl gadael y prosiect.

# Powys Workways

## Annog cyflogadwyedd

Llwyddodd Tîm Adfywio Cyngor Sir Powys, mewn partneriaeth gyda PRIME Cymru, i sicrhau gwerth £320,000 ar ffurf cyllid ESF er mwyn cynnig cymorth i unigolion economaidd anweithgar 54 oed a throsodd yn y sir, i'w helpu ar eu llwybr yn ôl i gyflogaeth.

Ariannwyd y prosiect gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac fe'i ddarparwyd trwy Lywodraeth Cymru, ac roedd yn cynnig mentora un-i-un, cymorth wrth chwilio am swydd a sgiliau cyfweld, help i ysgrifennu CV, y cyfle i sicrhau cymwysterau newydd, a chwilio am leoliadau profiad gwaith a gwirfoddoli.

Yn rhan olaf y prosiect, cynhaliwyd a chymeradwywyd ymarfer ail-broffilio er mwyn galluogi'r prosiect i weithio gyda grŵp ehangach o bobl, gan gynnwys y rhai a oedd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir. Arweiniodd hyn at niferoedd da yn manteisio ar y gwasanaethau a gynigiwyd trwy'r prosiect, gan alluogi i fwy o bobl fanteisio ar a chael budd gan y gwasanaeth a gynigiwyd.

At ei gilydd, ymgysylltwyd gyda 320 o gyfranogwyr economaidd anweithgar. Roedd hyn yn cyfateb gydag 86 o bobl a aeth ymlaen i sicrhau cyflogaeth ar ôl gadael y prosiect, 84 a sicrhaodd gymhwyster neu ardystiad a oedd yn berthnasol i fyd gwaith, a 57 o bobl yr oeddent mewn cyflogaeth o hyd chwe mis ar ôl gadael y prosiect. Yn ogystal, gwelwyd nifer uwch na'r disgwyl yn mentro i fyd hunangyflogaeth ar ôl gadael y prosiect.

Roedd y cymorth wedi'i deilwra yn golygu hefyd bod y cyfranogwyr wedi adrodd am gynnydd yn eu hyder a'u hunan-barch, a'u bod yn teimlo'n well am eu rhagolygon ar gyfer y dyfodol.



Mae Siawns Teg, elusen cynhwysiant cymdeithasol yn Y Drenewydd wedi cael gwerth

**£116,000**

gan Gynhwysiant Gweithredol ar gyfer eu prosiect Dyfodol Mwy Disglair.

# Cynhwysiant Gweithredol - Y Drenewydd

## Cymorth wedi'i dargedu

Rheolir y Gronfa Cynhwysiant Gweithredol gan CGGC, gyda chymorth £21m ar ffurf cyllid gan UE. Ei nod yw lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru a gwella cyflogadwyedd pobl ddifreintiedig, ac mae ganddi elfen Ieuenctid benodedig i weithio gyda phobl dan 25 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Dan y prosiect Cynhwysiant Gweithredol, gall sefydliadau o'r trydydd sector wneud cais am gyllid i ddarparu gweithgarwch cyflogadwyedd penodol ac wedi'i deilwra yn eu hardaloedd lleol. Mae Siawns Teg yn elusen cynhwysiant cymdeithasol yn Y Drenewydd, sy'n gweithio i ddelio gyda'r problemau a'r materion sy'n ymwneud â diweithdra, cyfleoedd dysgu personol ac iechyd. Cawsant gwerth £116,000 gan Gynhwysiant Gweithredol ar gyfer eu prosiect Dyfodol Mwy Disglair – rhaglen wedi'i theilwra ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir, er mwyn eu helpu i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag gweithio, gan sicrhau cyflogaeth neu addysg bellach.

Cyfeiriwyd Joe at Brosiect Dyfodol Mwy Disglair yn gynnar yn 2020. Roedd ar y Sbectrwm Awtistiaeth ac mae ganddo broblemau dysgu, ymddygiadol a chorfforol eraill hefyd oherwydd bod ganddo Hydroseffalws ers iddo gael ei eni. Yn gyffredinol, nid oedd ganddo lawer o hyder.

Roedd Joe wedi cael rhywfaint o brofiad gwaith mewn cegin ac roedd yn awyddus i ganlyn hyn ymhellach. Mynychodd Joe hyfforddiant a gweithdai ar-lein, a llwyddodd i sicrhau tystysgrif Sgiliau Bywyd a oedd yn gysylltiedig gyda gwaith. Roedd Joe wedi parhau i ymgeisio am swyddi perthnasol ac fe'i cynorthwywyd gyda'r broses ymgeisio a'i CV. Roedd y prosiect wedi cynorthwyo Joe hefyd trwy gynnal cyfweliad ffug cyn ei sifft brawf fel cynorthwyydd cegin mewn gwesty lleol.

Mae sicrhau'r swydd wedi cael effaith enfawr ar fywyd Joe. Mae ei hunan-barch a'i hyder wedi gwella'n sylweddol a gan ei fod yn ennill cyflog wythnosol nawr, nid oes yn rhaid iddo wneud cais am y Credyd Cynhwysol mwyach.

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

Am unrhyw wybodaeth bellach ewch i:
www.tyfucanolbarth.cymru
www.growingmid.wales
twitter.com/GrowingMidWales

Undeb Ewropeaidd / European Union
Llywodraeth Cymru / Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynhyrchir ar ran Tyfu Canolbarth Cymru gan Dîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth Cymru